

# CYFARWYDDWR POLISI AC YMCHWIL

**Dyddiad cau: 23.59pm ddydd Llun 12 Ionawr 2026**

belong
THE COHESION AND INTEGRATION NETWORK

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â **Belong – Y Rhwydwaith Cydlyniant ac Integreiddio** – fel ein **Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil** nesaf. Mae hon yn swydd arwain ar lefel uwch sy'n rhan greiddiol o genhadaeth Belong i siapio sgyrsiau cenedlaethol ar gydlyniant ac integreiddio. Rydym yn chwilio am arweinydd strategol sy'n credu'n frwd mewn creu cymdeithas fwy unedig a llai rhanedig ac sydd eisiau gwneud gwahaniaeth parhaol i gymunedau.

Mae gennym broffil cenedlaethol cryfach, strategaeth feiddgar ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod, ac Uwch Dîm Arwain uchelgeisiol, felly mae'n adeg eithriadol i ymuno â ni. Wrth i Belong ddechrau ar y cam nesaf yn nhwf y rhwydwaith, rydym ni'n benderfynol o ddyfnhau ein heffaith, cryfhau ein gwydnwch, a hyrwyddo cydlyniant ac integreiddio ar raddfa fawr.
Fel Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil, byddwch yn arwain datblygiad polisi, strategaeth ymchwil, a phartneriaethau cenedlaethol Belong sy'n dylanwadu ar newid. Byddwch yn sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a phrofiad bywyd, gan chwyddo llais Belong ymhlith llunwyr polisïau a barn.

Rydym yn chwilio am arweinydd strategol a chraff sydd ag arbenigedd dwfn mewn datblygu polisi ac ymchwil ac sy'n hyderus o ran arwain timau, datblygu argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dylanwadu ar drafodaethau cyhoeddus. Bydd gennych chwilfrydedd deallusol, ymwybyddiaeth wleidyddol, ymrwymiad i degwch a chynhwysiant, a sgiliau cyfathrebu rhagorol. Byddwch yn gallu troi syniadau cymhleth yn negeseuon hygyrch a meithrin perthnasoedd llawn ymddiriedaeth ar draws sectorau.

Os ydych chi'n ffynnu mewn rôl arwain gydweithredol a'ch bod eisiau sbarduno newid systemig, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Kelly Fowler**
Prif Swyddog Gweithredol, Belong



# Gwybodaeth am Belong

**Belong yw prif rwydwaith nid-er-elw y Deyrnas Unedig ym maes cydlyniant cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda chymunedau, awdurdodau lleol, a phartneriaid cenedlaethol i gryfhau ymddiriedaeth, yr ymdeimlad o berthyn, a gwydnwch drwy raglenni arloesol, ymchwil, a dylanwad polisi. Mae ein haelodaeth yn tyfu ac mae'n cynnwys awdurdodau lleol, elusennau, cymdeithas sifil, a busnes.**

## Dyma'r hyn y mae Belong yn ei wneud:

- Gwaith cydlyniant a gwaith rhyngddiwylliannol mewn lleoedd penodol gydag awdurdodau lleol a chymunedau.
- Gwaith ymchwil a pholisi i gynyddu'r sylfaen o dystiolaeth a dylanwadu ar newid cenedlaethol.
- Hyfforddiant, ymgynghoriaeth, a datblygu arweinyddiaeth.
- Rhannu gwybodaeth, rhwydweithiau, digwyddiadau dysgu, ac arwain agweddau.

**Rydym yn gydweithredol, yn cael ein harwain gan dystiolaeth, ac wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant.**



# Ein Tim

Yn Belong, yr hyn sy’n uno ein tîm yw ein hymrwymiad ar y cyd i greu cymdeithas fwy cynhwysol a chysylltiedig. Rydym yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd sydd â chefndir mewn ymchwil, ymgysylltu â'r gymuned, cyfathrebu, gwaith hwyluso, a pholisi. Rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol, sefydliadau cymdeithas sifil, sefydliadau academaidd, a phartneriaid cenedlaethol i gryfhau cydlyniant cymdeithasol ledled y DU.

# Buddion

- 30 diwrnod o wyliau y flwyddyn (yn ogystal â gwyliau banc)
- Gweithio’n hybrid
- Tâl salwch uwch
- Tâl mamolaeth a thadolaeth uwch



# Gwybodaeth am y Swydd

**Teitl y swydd:** Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil
**Oriau gwaith:** Llawn-amser
**Lleoliad:** Ledled y DU gan deithio'n rheolaidd ledled Cymru a Lloegr
**Math o gontract:** Parhaol
**Cyflog:** £65,000–£70,000

Byddwch yn arwain agenda polisi ac ymchwil Belong, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â strategaeth ac effaith y sefydliad ar lefel genedlaethol.

## Prif Gyfrifoldebau

### Arwain Ymchwil a Pholisi yn Strategol

- Arwain gwaith datblygu agenda polisi ac ymchwil Belong, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â strategaeth y sefydliad
- Cynhyrchu allbynnau polisi o ansawdd uchel gan gynnwys adroddiadau, briffiau, ymatebion i ymgyngoriadau a darnau sy’n arwain agweddau
- Sicrhau bod ymchwil Belong yn drylwyr, yn gynhwysol ac yn seiliedig ar brofiad bywyd
- Goruchwylio'r gwaith o ddylunio a chyflawni prosiectau ymchwil, gan gynnwys gwaith comisiynu a gwaith partneriaeth
- Troi canfyddiadau ymchwil yn argymhellion polisi a strategaethau eiriolaeth y gellir gweithredu arnynt
- Meithrin cydweithio cryf rhwng y tîm Darparu Rhaglenni a'r tîm Polisi ac Ymchwil, gan sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn sgil gwaith darparu Belong yn llywio blaenoriaethau ymchwil yn barhaus, tra bod canfyddiadau ymchwil yn llywio’r modd y mae rhaglenni’n cael eu dylunio a’u rhoi ar waith.

### Dylanwadu a Chyfathrebu

- Cyfrannu at waith cynllunio strategol Belong a phenderfyniadau’r uwch arweinwyr
- Bod yn rheolwr llinell i staff polisi ac ymchwil, gan gynnig cefnogaeth, goruchwyliaeth a datblygiad
- Cydweithio â'r Cyfarwyddwr Rhaglenni i sicrhau cysondeb rhwng y gwaith cyflawni a dylanwadu
- Chwarae rhan weithredol i gefnogi cynhyrchu incwm drwy ddatblygu cynigion a chanfod ac ymgysylltu â chyllidwyr
- Cynnal gwerthoedd Belong a’i ymrwymiad i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant

## Prif Gyfrifoldebau

### Datblygiad Sefydliadol

- Cyfrannu at waith cynllunio strategol Belong a phenderfyniadau’r uwch arweinwyr
- Bod yn rheolwr llinell i staff polisi ac ymchwil, gan gynnig cefnogaeth, goruchwyliaeth a datblygiad
- Cydweithio â'r Cyfarwyddwr Rhaglenni i sicrhau cysondeb rhwng y gwaith cyflawni a dylanwadu
- Chwarae rhan weithredol i gefnogi cynhyrchu incwm drwy ddatblygu cynigion a chanfod ac ymgysylltu â chyllidwyr
- Cynnal gwerthoedd Belong a’i ymrwymiad i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant

Sylwch: Rhestr enghreifftiol yw hon, ac nid yw’n cynnwys popeth. Mae’n bosibl y bydd gofyn i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol sy’n cyd-fynd â'r swydd.

# Amdanoch Chi

**Rydym yn chwilio am arweinydd strategol a chraff sydd â:**

- Phrofiad diamheuol o ddatblygu polisïau ac arwain ymchwil
- Profiad o weithio mewn neu gyda llywodraeth, melinau trafod neu sefydliadau eiriolaeth
- Dealltwriaeth gadarn o bolisi cymdeithasol a phrosesau dylanwadu
- Gwybodaeth am gydlyniant, integreiddio, cysylltiadau cymunedol a datblygiad cymunedol
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac ar bapur
- Profiad o ymgysylltu â'r cyfryngau a siarad cyhoeddus
- Gallu i droi ymchwil gymhleth yn negeseuon polisi hygyrch
- Ymwybyddiaeth o ddulliau ymchwil cyfranogol a chymhwysol
- Sgiliau cadarn o ran cynllunio a meddwl yn strategol
- Cymhwyster perthnasol mewn polisi cyhoeddus, ymchwil gymdeithasol neu faes cysylltiedig
- Profiad o reoli timau a chyllidebau
- Profiad o godi arian a datblygu cynigion

**Rhinweddau Personol**



- Llawn brwdfrydedd dros wella cydlyniant ac integreiddio yn y DU
- Gallu meddwl yn strategol ac yn llawn gweledigaeth
- Arweinydd cydweithredol a chynhwysol
- Crebwyll gwleidyddol a chwilfrydedd deallusol
- Ymarferol, pendant a dibynadwy
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol



# Y Broses o Wneud Cais

**Dyddiad cau: 23.59pm ddydd Llun 12 Ionawr 2026**
**Cyn-gyfweliadau cyntaf: 29 & 30 Ionawr, ar-lein**
**Ail-gyfweliadau: 12 Chwefror, wyneb yn wyneb**

## Y Broses o Wneud Cais

I wneud cais, cyflwynwch eich CV a dogfen Word sy'n cynnwys atebion i'r cwestiynau canlynol, i recruitment@belongnetwork.co.uk gan roi ‘Application to the role of Director of Policy & Research’ yn deitl i’r e-bost.

- Pam mae gennych chi ddiddordeb mewn gwneud cais a sut ydych chi'n teimlo bod eich gwerthoedd personol yn cyd-fynd â'n cenhadaeth?
- Beth yw'r prif bethau yr ydych wedi eu cyflawni yn eich gyrfa, a’r prif ganlyniadau, sy'n golygu eich bod yn ymgeisydd cryf ar gyfer y swydd?
- Sut mae eich arddull arwain yn cefnogi twf pobl eraill ac yn creu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer grymuso?

Atebwch bob cwestiwn gydag uchafswm o 400 gair fesul ateb. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi drefnu trafodaeth gychwynnol, anffurfiol am y swydd, cysylltwch â recruitment@belongnetwork.co.uk





belongnetwork.co.uk

linkedin.com/the-belong-network

twitter.com/BelongNetwork

Elusen gofrestredig: 1180761



belong THE COHESION AND INTEGRATION NETWORK

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND